ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

CYNNWYS

Sut i Lenwi'r Asesiad Effaith Integredig ..... **Error! Bookmark not defined.**

Canllawiau a Chymorth i Lunio Asesiad Effaith ..... **Error! Bookmark not defined.**

Adran 1. Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham? 2

Adran 2. Beth fydd yr effaith ar lesiant cymdeithasol? 7

Adran 3. Beth fydd yr effaith ar lesiant diwylliannol a'r Gymraeg? 10

Adran 4. Beth fydd yr effaith ar lesiant economaidd? 10

Adran 5. Beth fydd yr effaith ar lesiant amgylcheddol? 13

Adran 6. Cofnod o'r Asesiadau Effaith Llawn Gofynnol 16

Adran 7. Casgliad 17

Adran 8. Datganiad ..... **Error! Bookmark not defined.**

Asesiadau Effaith Llawn 22

A. Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant 22

B. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb 26

C. Asesiad o'r Effaith o ran Prawfesur Gwledig ..... **Error! Bookmark not defined.**

D. Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd ..... **Error! Bookmark not defined.**

E. Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg 32

F. Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth 37

ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Hirdymor

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ledled Cymru a enwir yn y ddeddf weithio tuag at gyflawni saith nod llesiant, gan gynnwys 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Ceir hefyd sail statudol i'r system ar gyfer cynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Mae dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ac i weithio tuag at gyflawni'r nodau llesiant.

Cyhoeddwyd Symud Cymru Ymlaen 2016-2021 ym mis Medi 2016, a'i nod yw llywio gwelliannau i economi a gwasanaethau cyhoeddus Cymru er mwyn creu Cymru sy'n ffyniannus a diogel, yn iach ac egnïol, yn uchelgeisiol ac yn dysgu, ac sydd wedi'i huno a'i chysylltu. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu blaenoriaethu'r Llywodraeth ar gyfer cyflawni'r gwelliannau hyn. Maent yn fesurau uchelgeisiol a fydd yn cael effaith ar bawb ar bob cam o'u bywyd.

Mae hefyd yn nodi uchelgais Llywodraeth Cymru o ran cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a nifer y bobl sy'n ei siarad, yn ogystal â'i hymrwymiad i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac i barhau i annog mwy o bobl i ddefnyddio a siarad Cymraeg yn eu bywydau bob dydd.

Cymraeg 2050

Cyhoeddwyd strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru ym mis Awst 2017. Am y tro cyntaf, mae gennym weledigaeth ar gyfer Cymru lle mae ei hiaith yn ffynnu. Un o nodau allweddol y strategaeth yw creu system addysg statudol sy'n cynyddu nifer y siaradwyr hyderus. Er mwyn cyflawni'r nod hwn, rhaid i ni gynyddu nifer y disgyblion ysgol sy'n cael y cyfle i feithrin sgiliau Cymraeg yn yr ysgol a'r cyfle i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd, a hynny'n sylweddol. Dyma'r sbardun ar gyfer dymuniad Llywodraeth Cymru i atgyfnerthu'r fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi'r ffordd y caiff y Gymraeg a darpariaeth Cymraeg eu cynllunio yn ein system addysg statudol yng Nghymru.

Mae Cymraeg 2050 yn gofyn am gymorth gan ein hawdurdodau lleol i ymateb i'n huchelgais o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg, a hynny drwy ddangos arweinyddiaeth glir ac ymrwymiad i rannu'r un weledigaeth hirdymor. Mae angen i'r ddeddfwriaeth sy'n nodi'r gofynion ar gyfer awdurdodau lleol mewn perthynas â chynllunio addysg cyfrwng Cymraeg adlewyrchu dyheadau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg dros y 30 mlynedd nesaf. Rhaid i ni gymryd camau sylweddol, systematig a rhagweithiol tuag at gyflawni'r nod o gynyddu nifer y disgyblion sy'n dysgu Cymraeg.

Mae angen sicrhau newidiadau pellgyrhaeddol er mwyn ymateb i'r her o gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Mae angen i ni wthio'r ffiniau a chymryd camau uchelgeisiol i

sicrhau bod mwy o bobl yn dysgu ac yn defnyddio'r Gymraeg. Mae'r system addysg yn allweddol i sicrhau ein bod yn cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg, ac mae'n hollbwysig ein bod yn creu system addysg statudol sy'n cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg hyderus.

Cymraeg 2050 yw'r prif bolisi sy'n llywio'r newidiadau i'r broses statudol o gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg. Yn ôl strategaeth Cymraeg 2050, addysg ymdrochi cyfrwng Cymraeg yw ein prif ddull o sicrhau bod plant yn gallu meithrin eu sgiliau Cymraeg, ac o greu siaradwyr newydd. Mae data ysgolion yn dweud wrthym faint o blant sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, Maent yn ddangosydd allweddol o ran y twf sy'n ofynnol ac yn dangos pwysigrwydd sicrhau ymrwymiad y system addysg i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg. Maent hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd y sector blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad cynnar i addysg ymdrochi, ac fel ffordd o gynyddu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg.

Hefyd, bydd angen cynyddu nifer y dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n dysgu Cymraeg yn llwyddiannus drwy ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnod statudol, a bydd yn rhan annatod o'r cwricwlwm newydd a fydd yn cynnwys un continwwm ar gyfer dysgu Cymraeg. Drwy gyflwyno'r cwricwlwm newydd, y nod yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n rhan o'r system addysg statudol a sicrhau bod pob dysgwr, yn y dyfodol, yn gallu defnyddio'r Gymraeg ar ôl iddo adael yr ysgol.

Bydd y cynnig yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu cyflawni eu dyletswyddau statudol mewn perthynas ag addysg cyfrwng Cymraeg drwy eu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Y cynlluniau hyn yw'r adnodd cynllunio iaith hirdymor ar gyfer awdurdodau lleol ac maent yn pennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer cynllunio ac ehangu addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd hyn yn galluogi awdurdodau lleol i gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg yn eu hardaloedd mewn ffordd sy'n cyflawni nodau Cymraeg 2050.

Bydd targedau lleol mewn Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn seiliedig ar y targed hirdymor cyffredinol i sicrhau miliwn o siaradwyr. Mae Cymraeg 2050 yn amlinellu'r ymrwymiad i gynyddu cyfran y disgyblion ym mhob blwyddyn ysgol sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg o 22% i 30% erbyn 2031, a bydd y cynnydd cenedlaethol hwn o 8% yn sail i dargedau pob awdurdod lleol yn ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Atal

Yn ôl Cymraeg 2050, er mwyn i ni greu system addysgu statudol sy'n cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg hyderus, rhaid i ni gymryd camau breision i adeiladu ar y sylfeini a osodwyd – yn enwedig dros y 5-10 mlynedd nesaf.

Mae'r cynnig hwn yn cefnogi'r datganiad yn Cymraeg 2050 bod yn rhaid i ni symud i ffwrdd oddi wrth system gynllunio sy'n seiliedig ar fesur y galw am addysg cyfrwng Cymraeg, i ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg mewn ffordd systematig a rhagweithiol.

Bydd hyn yn galluogi awdurdodau lleol i gymryd camau sylweddol, systematig a rhagweithiol tuag at gyflawni'r nod o gynyddu nifer y disgyblion sy'n dysgu Cymraeg.

Integreiddio

Prif amcan y cynnig hwn yw sicrhau bod awdurdodau lleol yn gwella'r ffordd y maent yn cynllunio ac yn ymestyn darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Mae cysylltiad clir rhwng yr amcan hwn a phedwar o'r saith nod llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

– Cymru ffyniannus
– Cymru sy'n fwy cyfartal
– Cymru o gymunedau cydlynus
– Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Mae angen i Gymru greu cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn diogelu ei diwylliant, ei threftadaeth a'i hiaith. At hynny, mae angen iddi greu cymdeithas sy'n meithrin poblogaeth fedrus a hyddysg mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth.

Bydd y cynnig hwn yn annog awdurdodau lleol i hybu'r Gymraeg drwy'r system addysg statudol, yn ogystal â helpu i feithrin sgiliau Cymraeg y gellir eu defnyddio yn y gweithle yn y dyfodol. Yn ei dro, bydd hyn yn cyfrannu at yr agenda trechu tlodi. Hefyd, bydd y cynnig hwn yn hyrwyddo'r Gymraeg a'r cyfleoedd diwylliannol sy'n gysylltiedig â hi, ac yn annog pob plentyn a pherson ifanc i fanteisio arnynt.

Cydweithredu

Awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am gyflawni'r cynlluniau hyn, a bydd gan y consortia rhanbarthol hefyd rôl i'w chwarae o ran cyflawni rhai agweddau ar y cynnig.

Rydym wedi cynnal trafodaethau â CLlLC ac awdurdodau lleol unigol er mwyn ceisio eu barn am y datblygiadau ers i'r adolygiad cyflym o Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ddod i ben yn 2017, a hynny yn ystod trafodaethau monitro rheolaidd rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol unigol. Byddwn yn cynnal ymgynghoriad ffurfiol ynghylch y cynnig hwn ym mis Mai, ac yn ymgysylltu â phob awdurdod lleol. Caiff unrhyw gyfraniadau pellach a fydd ganddynt mewn perthynas â'r cynnig hwn eu cynnwys yn y cam nesaf ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben.

Awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am ddatblygu a chyflawni eu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg eu hunain, yn seiliedig ar dargedau y cytunwyd arnynt â Llywodraeth Cymru.

Cymryd Rhan

Yn 2017, cynhaliodd Aled Roberts adolygiad cyflym o'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a oedd yn cydnabod yr angen am newid, nid yn unig o ran uchelgeisiau cynlluniau unigol, ond hefyd o ran y fframwaith deddfwriaethol a nodwyd gan Lywodraeth

Cymru. Tynnodd yr adolygiad sylw at yr angen i newid y rheoliadau a'r canllawiau sy'n deillio o'r ddeddfwriaeth er mwyn atgyfnerthu cyfrifoldebau a disgwyliadau awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill.

Yn dilyn yr adolygiad cyflym, sefydlwyd bwrdd cynghori annibynnol er mwyn cynghori'r Gweinidogion ynghylch cynlluniau i atgyfnerthu'r seilwaith cynllunio ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn unol â'r weledigaeth yn Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

Rydym wedi cynnal trafodaethau parhaus â CLlLC er mwyn sicrhau ei bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynnig ac yn cynrychioli barn awdurdodau lleol, a byddwn yn cynnal ymgynghoriad agored ym mis Mai am gyfnod o 12 wythnos er mwyn cynnwys rhanddeiliaid, a'u barn, ymhellach. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol unigol fydd cyflawni'r cynnig hwn. Wrth fynd ati i ddatblygu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, mae'n ofyniad statudol i awdurdodau lleol ymgynghori ag amrywiaeth o randdeiliaid ac unigolion yr effeithir arnynt neu sydd â rôl i'w chwarae yn y gwaith o'i gyflawni.

Effaith

Mae addysg cyfrwng Cymraeg, a'r gwaith o'i hehangu, yn hanfodol i lwyddiant Strategaeth Cymraeg 2050. Mae angen 438,000 o siaradwyr Cymraeg ychwanegol er mwyn cyflawni'r targed o filiwn erbyn 2050, ac er mwyn cyflawni hyn, bydd angen i'r sector addysg gael ei drawsnewid mewn ffyrdd penodol. Bydd y cynnig hwn yn galluogi awdurdodau lleol i roi newidiadau ar waith, cynyddu a gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg a, thrwy hynny, helpu i gyflawni'r targed o filiwn o siaradwyr.

Cydnabu adolygiad cyflym o'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, a gomisiynwyd yn 2017, yr angen am newid, nid yn unig o ran uchelgeisiau cynlluniau awdurdodau lleol unigol, ond hefyd o ran y fframwaith deddfwriaethol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru. Tynnodd yr adolygiad sylw at yr angen i newid y rheoliadau a'r canllawiau sy'n deillio o'r ddeddfwriaeth er mwyn atgyfnerthu cyfrifoldebau a disgwyliadau awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill, ac mae'r cynnig hwn yn ceisio gwneud hynny.

Ystyriodd yr adolygiad cyflym o'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, a gynhaliwyd yn 2017, y dystiolaeth a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol, ac, yn dilyn hynny, cyhoeddwyd cyfres o argymhellion.

Sefydlwyd Bwrdd Cynghori annibynnol rhwng mis Mai 2018 a mis Mawrth 2019. Ystyriodd y Bwrdd y newidiadau yr oedd angen eu gwneud i *Reoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg* (Cymru) *2013* ("Rheoliadau 2013"), o fewn cyd-destun argymhellion yr Adolygiad Cyflym ac, wrth gwrs, y naratif polisi ehangach ynghylch yr uchelgais i gyflawni miliwn o siaradwyr Cymraeg a diwygio'r cwricwlwm.

Roedd y bwrdd cynghori'n cynnwys cynrychiolwyr o nifer o sectorau ac mae'r aelodau wedi bod yn rhan allweddol o bob penderfyniad ynghylch y cynigion hyn.

Daeth amrywiaeth o randdeiliaid i gyfarfodydd y bwrdd cynghori er mwyn cyflwyno tystiolaeth am faterion penodol yn ymwneud â'r cynnig, neu cawsant eu gwahodd i gwrdd â Chadeirydd y bwrdd cynghori er mwyn cyflwyno eu barn a'u tystiolaeth. Roedd y rhain yn cynnwys y pedwar consortiwm rhanbarthol, Cymdeithas yr Iaith, RhaG, Cyngor y Gweithlu Addysg, yr Urdd, cynrychiolwyr o brifysgolion, Estyn a CLlLC.

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, daeth y Bwrdd i'r casgliad nad yw'r strwythur cyfredol sy'n cefnogi'r broses strategol o gynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg drwy Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cefnogi'r uchelgais hirdymor o ran y Gymraeg mwyach, a rhoddodd gyngor i'r Gweinidog Addysg ar sail y dystiolaeth hon, a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r cynnig hwn.

Bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc yng Nghymru drwy gynnig dewisiadau ychwanegol o ran addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a mwy o gyfleoedd a chymorth i bawb fanteisio arni. Yn ei dro, bydd hyn yn cynnig sgiliau Cymraeg i blant a phobl ifanc y gallant eu defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd ac, yn enwedig, pan fyddant yn gadael yr ysgol ac yn dechrau gweithio. Bydd hefyd yn rhoi mwy o gyfleoedd i'r rhai mewn ysgolion cyfrwng Saesneg wella eu sgiliau Cymraeg.

Bydd y cynnig hwn i newid hyd Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg o gylch tair blynedd i gylch deng mlynedd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud newidiadau hirdymor i'r ffordd y maent yn cynllunio ar gyfer twf addysg cyfrwng Cymraeg a bydd yn golygu y bydd yn rhaid iddynt wneud gwaith cynllunio manwl er mwyn datblygu eu cynlluniau, gan gynnwys gwaith ar draws adrannau ac mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allanol. Oherwydd eu cyfraniad allweddol at Strategaeth Cymraeg 2050, caiff proses ei rhoi ar waith a fydd yn golygu y bydd cynlluniau awdurdodau lleol yn destun gwaith craffu manylach na'r cynlluniau cyfredol, a fydd yn rhoi mwy o gyfrifoldeb i awdurdodau lleol eu cyflawni.

Costau ac Arbedion

Aseswyd y costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r cynnig hwn fel rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sydd ynghlwm wrth y Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

Systemau

Bydd y cynnig yn darparu fframwaith a fydd yn galluogi awdurdodau lleol i wella'r ffordd y maent yn cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg a'i thwf.

ADRAN 2. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT CYMDEITHASOL?

2.1 Pobl a Chymunedau

Y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yw'r adnodd cynllunio iaith hirdymor ar gyfer awdurdodau lleol, sy'n nodi'r cyfeiriad strategol ar gyfer cynllunio ac ehangu addysg cyfrwng Cymraeg. Felly, drwy'r cynlluniau hyn bydd awdurdodau lleol yn gallu cyfrannu'n sylweddol at Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

Bydd y cynnig hwn hefyd yn galluogi awdurdodau lleol i gynyddu'r ddarpariaeth a gynigir, a'i gwella, a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc ledled Cymru, heb ystyried y gymdeithas y maent yn byw, eu cefndir nac iaith y teulu, gan sicrhau bod mwy a mwy o blant a phobl ifanc yn meithrin sgiliau Cymraeg y gallant eu defnyddio mewn bywyd bob dydd.

2.2. Hawliau plant

Cynhaliwyd Asesiad llawn o Hawliau Plant, ac mae wedi'i gynnwys yn yr asesiad effaith integredig hwn.

2.3 Cydraddoldeb

Cynhaliwyd Asesiad Effaith Integredig llawn, ac mae wedi'i gynnwys yn yr asesiad effaith integredig hwn.

2.4 Prawfesur Gwledig

Cred Llywodraeth Cymru mai prin fydd effaith y cynnig hwn ar unigolion a chymunedau gwledig. Disgwyliwn i unrhyw effeithiau fod yn rhai cadarnhaol, a hynny oherwydd y canlynol:

Bydd plant a phobl ifanc yn gallu manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ni waeth ym mha gymuned y maent yn byw.

Bydd nodau'r cynnig hwn yn cefnogi awdurdodau lleol i gyflawni eu hymrwymiadau o ran y Gymraeg, siaradwyr Cymraeg a chymunedau sy'n siarad Cymraeg. Gan fod cyswllt clir rhwng cymunedau gwledig a'r rhai sy'n siarad Cymraeg, bydd y disgwyliad ar awdurdodau lleol fel rhan o'r cynnig hwn yn arwain at wella gwasanaethau a darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardaloedd hyn. Rhaid i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg awdurdodau lleol fod yn addas i ddiwallu anghenion eu cymunedau, sydd, mewn nifer o ardaloedd, yn cynnwys cymunedau gwledig. Rhaid i'r ddarpariaeth adlewyrchu anghenion

cymunedau gwledig, ac mewn ardaloedd fel Gwynedd, Ynys Môn a Cheredigion, rhaid iddi adlewyrchu anghenion ieithyddol eu cymunedau.

Y tu hwnt i ddyletswyddau'r cynnig hwn, ond yn gysylltiedig â chymunedau gwledig a phwysigrwydd sicrhau cydraddoldeb o ran y gallu i gael addysg cyfrwng Cymraeg, mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu trefniadau teithio addas i ddisgyblion sy'n dymuno cael addysg cyfrwng Cymraeg.

At hynny, fel rhan o'r cynnig hwn, bydd cyfle i awdurdodau lleol ddatblygu ffyrdd arloesol o fynd i'r afael ag unrhyw heriau sy'n codi mewn perthynas â'r ddarpariaeth mewn ardaloedd lleol, er enghraifft annog ysgolion i gydweithio, a defnyddio technoleg mewn ardaloedd anghysbell.

Drwy adroddiadau blynyddol awdurdodau lleol ar gynnydd, bydd Llywodraeth Cymru yn gallu monitro'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn barhaus a sicrhau ei bod ar gael i bawb a'i bod yn ddigonol mewn ardaloedd gwledig, gan gymryd camau i wella'r ddarpariaeth os caiff ei hystyried yn annigonol ar unrhyw adeg.

Ar sail yr effeithiau lleiaf a natur gadarnhaol yr effeithiau a amlinellir uchod, ni chynhaliwyd asesiad llawn o'r effaith o ran prawfesur gwledig.

2.5 Iechyd

2.5a Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar benderfynyddion iechyd?

Ni nodwyd unrhyw effeithiau a fydd yn effeithio ar iechyd.

2.5b. A allai fod effaith wahaniaethol ar iechyd grwpiau penodol?

Gan nad ydym wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol ar iechyd o ran y rheoliadau hyn, ni chynhaliwyd asesiad llawn o'r effaith.

2.6 Preifatrwydd

Fel rhan o'r cynnig, a fydd angen prosesu gwybodaeth a allai gael ei defnyddio i adnabod unigolion?

Mae'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn adnodd i awdurdodau lleol gynllunio ar gyfer datblygu ac ehangu addysg cyfrwng Cymraeg yn eu hardal yn yr hirdymor.

Ni chaiff unrhyw ddata personol eu casglu, eu trin na'u prosesu gan awdurdodau lleol o ganlyniad i'r cynnig hwn.

Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol gasglu data fel rhan o'r broses fonitro mewn perthynas â'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

Dylid nodi y caiff y data eu casglu'n bennaf drwy systemau a rhwymedigaethau polisi eraill, a'u cyhoeddi'n bennaf i'r cyhoedd, ac ni chânt eu hystyried yn ddata personol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Gweler isod enghreifftiau o'r data a gesglir gan awdurdodau lleol fel rhan o'r cynnig hwn.

- Nifer a chanran y plant tair oed sy'n cael darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen mewn lleoedd a ariennir drwy N2 yn nhymor yr hydref bob blwyddyn
- Nifer y plant pump oed mewn addysg cyfrwng Cymraeg
- Nifer y plant pump oed mewn addysg ddwyieithog
- Nifer y disgyblion a addysgir mewn awdurdodau lleol cyfagos
- Nifer y disgyblion sy'n cael cymorth hwyrddyfodiaid
- Data ar gyfran/canran yr addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl categori'r ysgol

Ni fydd Llywodraeth Cymru yn casglu nac yn cadw unrhyw ddata personol fel rhan o'r cynnig hwn. Felly, nid ydym wedi cwblhau Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd.

ADRAN 3. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT DIWYLLIANNOL A'R GYMRAEG?

3.1 Llesiant Diwylliannol

Mae'r cynnig hwn yn ymwneud â'r system addysg statudol yng Nghymru a gwaith cynllunio iaith hirdymor awdurdodau lleol i bennu cyfeiriad strategol ar gyfer cynllunio ac ehangu addysg cyfrwng Cymraeg. Nod y cynnig hwn yw cynyddu nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n meithrin sgiliau Cymraeg. Yn ei dro, bydd hyn yn eu galluogi i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd. Felly, disgwyliwn i'r cynnig cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, diwylliant a threftadaeth, yn ogystal ag ar y celfyddydau a gweithgareddau hamdden, gan y bydd mwy o blant a phobl ifanc yn gallu manteisio ar gyfleoedd trwy gyfrwng y Gymraeg, a'u mwynhau, yn yr ardaloedd hyn.

Mae Asesiad llawn o'r Effaith ar y Gymraeg wedi'i gynnwys yn Atodiad F.

3.1b A allai'r cynnig gael effaith negyddol ar hyrwyddo a gwarchod diwylliant a threftadaeth, neu ar allu pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau hamdden? Os felly, pa gamau y gallwch eu cymryd i osgoi neu leihau'r effaith honno (er enghraifft, drwy ddarparu cyfleoedd amgen)?

Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol o ran hyrwyddo a gwarchod diwylliant, treftadaeth, y celfyddydau na chwaraeon o ganlyniad uniongyrchol i'r cynnig hwn. Bydd rhoi'r cynnig hwn ar waith yn galluogi awdurdodau lleol i newid y ffordd y caiff darpariaeth cyfrwng Cymraeg ei chynllunio a'i chyflwyno, a fydd yn cynyddu nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n meithrin sgiliau Cymraeg ac yn rhoi'r dewis iddynt fanteisio ar gyfleoedd diwylliannol cyfrwng Cymraeg.

3.2 Y Gymraeg

Cynhaliwyd Asesiad llawn o'r Effaith ar y Gymraeg, ac mae wedi'i gynnwys yn yr asesiad hwn.

ADRAN 4. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT ECONOMAIDD?

4.1 Busnesau, y cyhoedd ac unigolion

Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar fusnesau a'r cyhoedd?

Cynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn er mwyn ategu'r rheoliadau. Nododd yr asesiad hwnnw gostau a manteision mewn perthynas â'r Bil dros gyfnod o ddeng mlynedd.

4.2 Y Sector Cyhoeddus gan gynnwys llywodraeth leol a chyrff cyhoeddus eraill

Caiff y dyletswyddau yn y cynnig hwn eu gosod ar awdurdodau lleol, felly, bydd yn arwain at oblygiadau ariannol i Awdurdodau Lleol unigol.

Bydd yn rhaid i'r costau sy'n gysylltiedig â rhoi'r cynnig hwn ar waith gael eu hariannu drwy setliad refeniw awdurdodau lleol, fel y caiff ei ddarparu iddynt gan Lywodraeth Cymru.

Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar fusnesau a'r cyhoedd?

Disgwylir y bydd y cynnig yn arwain at newid sylweddol o ran cynllunio ac, yn y pen draw, ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd hyn yn ofynnol er mwyn cyflawni'r targed o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Bydd hyn yn golygu ad-drefnu darpariaeth addysg mewn sawl awdurdod lleol, gan arwain at sefyllfa lle bydd mwy o ddysgwyr yn cael addysg cyfrwng Cymraeg.

Ni fydd y cynnig ei hun yn arwain at sefyllfa lle mae'n rhaid i awdurdodau addysgu mwy o blant gan na fydd yn effeithio ar dueddiadau o ran y boblogaeth na demograffeg. Ond efallai y bydd angen ystyried mwy o leoedd ysgol er mwyn darparu nifer ddigonol o leoedd ysgol.

Mae Deddf Addysg 1996 yn diffinio 'swyddogaethau addysg' awdurdod lleol. Mae'n nodi bod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu digon o leoedd ysgol ac, wrth wneud hynny, ystyried yr egwyddor gyffredinol y dylai disgyblion gael eu haddysgu yn unol â dymuniadau'r rhieni, cyn belled ag y bo hynny'n cyd-fynd â'r gwaith o ddarparu addysg effeithlon ac osgoi gwariant cyhoeddus afresymol. Os caiff y cynnig hwn ei roi ar waith, yna byddai'n rhaid i awdurdodau gydymffurfio â'r dyletswyddau creiddiol hynny o hyd wrth gynllunio eu darpariaeth addysg.

4.3 Y Trydydd Sector

Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar sefydliadau'r trydydd sector a'u gwaith?

Ni nodwyd unrhyw effaith ar sefydliadau'r trydydd sector na'u gwaith mewn perthynas â'r cynnig hwn.

4.4 Yr Effaith ar Gyfiawnder

Ar sail ein dealltwriaeth gyfredol, mae'n anhebygol y bydd effeithiau ar y system Gyfiawnder. Byddwn yn adolygu yn ystod y broses ymgynghori.

ADRAN 5. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT AMGYLCHEDDOL?

Mae'r asesiadau canlynol wedi eu cwblhau; Adnoddau Naturiol; Bioamrywiaeth a Newid yn yr hinsawdd.

5.1 Adnoddau Naturiol

5.1a Sut y bydd y cynnig yn cyflawni un neu ragor o Flaenoriaethau Cenedlaethol y Polisi Adnoddau Naturiol?

Gall y cynnig hwn helpu i ymdrin ag addysg mewn modd sy'n seiliedig ar leoedd. Darpariaeth gymunedol yw rhywfaint o'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg y cyfeirir ati yn y cynnig hwn, er enghraifft canolfannau trochi Cymraeg, ac mewn ardaloedd fel Gwynedd, defnyddir dull gweithredu sy'n seiliedig ar leoedd fel bod y plant sy'n mynychu'r ganolfan yn gallu meithrin eu sgiliau Cymraeg er mwyn iddynt allu integreiddio i mewn i system addysg yr awdurdod lleol yn ogystal ag i mewn i'r cymunedau sy'n siarad Cymraeg y maent yn rhan ohonynt.

5.1b A yw'r cynnig yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau cenedlaethol a'r cyfleoedd canlynol o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?

Mae yna rai meysydd lle y gall y cynnig hwn gefnogi heriau a chyfleoedd cenedlaethol, gan gynnwys annog a chefnogi cydlyniant cymunedol a chefnogi cyflogaeth. Bydd y cynnig hwn yn sicrhau cyfleoedd cynhwysol i bawb o ran y gallu i gael addysg cyfrwng Cymraeg, a allai, yn eu tro, arwain at well cydlyniant cymunedol ledled Cymru. Bydd hefyd yn golygu bod mwy o bobl yn meddu ar sgiliau Cymraeg, a fydd, yn ei dro, yn cefnogi amgylchedd diogel a sefydlog.

5.2 Bioamrywiaeth

Er mwyn dangos cydymffurfedd ag Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, rhaid i chi lenwi'r Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth, sydd ar gael yn atodiad F isod. Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth

5.3 Newid yn yr Hinsawdd

Mae'r newid yn yr hinsawdd wedi'i nodi fel un o'r bygythiadau mwyaf sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol. Mae angen inni leihau ein hallyriadau drwy fynd ati i ddatgarboneiddio (5.3a) ac addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd drwy gynyddu ein cydnerthedd (5.3b).

5.3a Datgarboneiddio

Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar allyriadau yng Nghymru?

Ni nodwyd unrhyw effeithiau felly ni chynhaliwyd asesiad.

Os gwnaethoch nodi effeithiau sylweddol, dylech gynnal asesiad gan ddefnyddio methodoleg prisio Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM ar Nwyon Tŷ Gwydr. **Eglurwch eich penderfyniad i gynnal asesiad mwy trwyadl o'r effaith ar allyriadau ai peidio.**

5.3 b Addasu

Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar y gallu i addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd?

Ni nodwyd unrhyw effeithiau.

5.4 Asesiad Amgylcheddol Strategol

Cyfeiriwch at y canllawiau ar gynnal asesiad effaith integredig a chysylltiadau pellach perthnasol i bennu a oes angen cynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol.

Eglurwch eich penderfyniad ynghylch a oes angen cynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol ai peidio yn ôl y gyfraith.

Ni nodwyd unrhyw effaith ac ni chynhaliwyd Asesiad Amgylcheddol Strategol.

5.5 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Cyfeiriwch at y canllawiau ar gynnal asesiad effaith integredig a'r dolenni pellach perthnasol i bennu a oes angen cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

Eglurwch eich penderfyniad ynghylch a oes angen cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ai peidio yn ôl y gyfraith.

Ni nodwyd unrhyw effeithiau ac ni chynhaliwyd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

5.6 Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol

Cyfeiriwch at y canllawiau ar gynnal asesiad effaith integredig a'r dolenni pellach perthnasol i bennu a oes angen cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol.

Eglurwch eich penderfyniad ynghylch a oes angen cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ai peidio yn ôl y gyfraith.

Ni nodwyd unrhyw effeithiau ac ni chynhaliwyd Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol.

ADRAN 6. COFNOD O'R ASESIADAU EFFAITH LLAWN GOFYNNOL

Rydych nawr wedi penderfynu ar y meysydd hynny lle bydd angen cynnal asesiad effaith mwy manwl. Rhestrwch y rhain isod.

Asesiad Effaith	**Oes/ Nac oes**	**Os oes, dylech wneud y canlynol:**
Hawliau plant		Oes
Cydraddoldeb	Oes*	Oes
Prawfesur Gwledig		Na
Iechyd		Na
Preifatrwydd		Na
Y Gymraeg	Oes*	Oes
Economaidd / Asesiad Effaith Rheoleiddiol		Oes
Cyfiawnder		Na
Bioamrywiaeth	Oes*	Oes
Newid yn yr Hinsawdd		Na
Asesiad Amgylcheddol Strategol		Na
Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd		Na
Asesiad o'r Effaith		Na

Amgylcheddol		

ADRAN 7. CASGLIAD

Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Lluniwyd y cynnig hwn yn dilyn gwaith ymgysylltu helaeth ag amrywiaeth o randdeiliaid ac arbenigwyr ers cynnal yr adolygiad cyflym o'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn 2017. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal trafodaethau ag awdurdodau lleol, yn ogystal â CLlLC, drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r cynnig hwn.

Tynnodd yr adolygiad hwnnw sylw at yr angen i ni newid y ffordd yr ydym yn llunio Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn sylweddol er mwyn llwyddo i gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050, a nododd fod y canllawiau a'r gofynion deddfwriaeth sydd ar waith ar hyn o bryd yn annigonol.

Sefydlwyd bwrdd cynghori annibynnol yn dilyn yr adolygiad cyflym er mwyn rhoi cyngor i'r Gweinidog ynghylch adolygu a diwygio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer 2021 ac ymlaen, sy'n galluogi awdurdodau lleol i ddatblygu cynlluniau strategol 10 mlynedd hirdymor.

Roedd y bwrdd cynghori'n cynnwys rhanddeiliaid a chynrychiolwyr o grwpiau amrywiol y bydd y cynnig hwn yn effeithio arnynt. At hynny, yn ystod trafodaethau'r bwrdd cynghori estynnwyd gwahoddiad i grwpiau a sefydliadau sy'n arbenigo yn y Gymraeg gyflwyno eu safbwyntiau a'u tystiolaeth mewn perthynas â'r cynnig hwn, a rhoddwyd ystyriaeth i'r safbwyntiau a'r dystiolaeth hynny wrth fynd ati i'w ddatblygu.

Byddwn yn cynnal digwyddiad ymgysylltu â phlant a phobl ifanc fel rhan o'r broses ymgynghori ffurfiol.

7.1 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Caiff pob asesiad effaith ei gyhoeddi, ac os yw'r effaith yn uniongyrchol berthnasol i'r cynnig hwn, bydd wedi'i nodi yn yr asesiad perthnasol. Cynhaliwyd asesiadau effaith penodol ar y pynciau canlynol:

Hawliau plant

Cydraddoldeb

Y Gymraeg

Hawliau plant

- Bydd mwy o blant a phobl ifanc yn gadael y system addysg â sgiliau Cymraeg. Bydd hyn yn golygu y bydd ganddynt y sgiliau i'w cymhwyso at amrywiaeth eang o swyddi lle mae'r Gymraeg yn cael ei chydnabod yn sgil hanfodol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r agenda trechu tlodi drwy rymuso plant a phobl ifanc sy'n meddu ar sgil ychwanegol pan fyddant yn gadael y system addysg.
- Bydd y gwaith yn y cynnig hwn yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael mwy o gyfleoedd i ddysgu'r iaith, ac yn golygu bod mwy o blant a phobl ifanc yn cael y cyfle i fanteisio ar fuddiannau dwyieithrwydd.
- O ran y rôl hanfodol y mae'r system addysg yn ei chwarae wrth gyrraedd miliwn o siaradwyr, mae'r cynnig hwn hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cynyddu'r cyfraddau trosglwyddo rhwng cyfnodau allweddol o fewn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Bydd hyn yn rhoi'r siawns gorau posibl i blant a phobl ifanc gynnal eu sgiliau Cymraeg a manteision dwyieithrwydd wrth iddynt ddod yn oedolion.
- Bydd rhoi'r cynnig hwn ar waith drwy'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn sicrhau bod mwy o blant a phobl ifanc yn cael mynediad cyfartal i addysg cyfrwng Cymraeg.

Cydraddoldeb

Nod y cynnig hwn yw cynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i blant. Drwy wneud hyn, bydd yn gweithio i gynnig mwy o gyfleoedd i bobl feithrin sgiliau Cymraeg drwy'r sector addysg. Ymhen amser, gall hyn gyfrannu at yr agenda trechu tlodi drwy roi sgiliau Cymraeg i blant na fyddent o bosibl wedi cael y cyfle i'w meithrin heb y strategaeth hon. O ganlyniad, mae'n bosibl y bydd y plant hynny'n gallu ymgeisio am swyddi lle mae'r Gymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol, gan eu galluogi i fanteisio ar ran o'r farchnad lafur na fyddai fel arall wedi bod yn agored iddynt.

Drwy gynyddu a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg, ochr yn ochr â gweithio i gynyddu lle'r Gymraeg yn ein cymunedau, gallai'r cynnig helpu i sicrhau cydlyniant cymunedol rhwng pobl o gefndiroedd ethnig, crefyddau a hiliau gwahanol.

Y Gymraeg

Mae'r cynnig hwn yn ymwneud â'r system addysg statudol, felly ar blant a phobl ifanc sy'n rhan o'r system gyfredol y mae'n effeithio'n bennaf. Fodd bynnag, bydd yn cael effaith gydol oes ar y rhai hynny sy'n mynd drwy'r system addysg wrth iddo geisio cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg hyderus. Bydd hyn yn golygu bod mwy o bobl yn meddu ar sgiliau iaith y gellir eu trosglwyddo i'r gweithle yn y dyfodol a bod mwy o bobl yn cael y cyfle i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd.

Bydd y deilliannau ar gyfer y Gymraeg yn gwella o fewn y system addysg statudol fel rhan o'r dyletswyddau a nodir yn y cynnig hwn. Yn fras, bydd yn ofynnol i bob awdurdod lleol wneud y canlynol:

- gwella'r broses o gynllunio'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn ei ardal
- gwella safonau addysg cyfrwng Cymraeg a safonau addysgu Cymraeg yn ei ardal
- gosod targedau ar gyfer gwella'r broses o gynllunio'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn ei ardal ac ar gyfer gwella safonau'r addysg honno a safonau addysgu Cymraeg yn ei ardal.

At hynny, caiff y deilliannau ar gyfer y Gymraeg eu hatgyfnerthu drwy'r cynnig hwn gan y bydd dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i weithio tuag at gyflawni'r saith deilliant canlynol:

- Mwy o blant meithrin/tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg
- Mwy o blant dosbarth derbyn/pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg
- Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall
- Mwy o fyfyrwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg
- Mwy o gyfleoedd i fyfyrwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol y tu allan i'r ystafell ddosbarth
- Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol)
- Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg.

Fel rhan o'r cynnig hwn, bydd awdurdodau lleol yn gweithio tuag at gyflawni eu targed unigol eu hunain er mwyn cyfrannu at darged cyffredinol Llywodraeth Cymru i sicrhau bod 30% o ddisgyblion yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2031. Bydd hyn yn sicrhau bod yn rhaid i awdurdodau lleol, drwy'r system addysg, gynnal neu wella cynaliadwyedd eu cymunedau sy'n siarad Cymraeg drwy sicrhau bod y ddarpariaeth yn adlewyrchu nodweddion ieithyddol eu hardal.

7.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**

- Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ledled Cymru a enwir yn y ddeddf weithio tuag at gyflawni saith nod llesiant, gan gynnwys 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Ceir hefyd sail statudol i'r system ar gyfer cynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Mae dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a gweithio tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a bydd y cynnig hwn yn cyfrannu'n uniongyrchol at y ddyletswydd hon drwy'r system addysg statudol.

- Cyhoeddwyd Symud Cymru Ymlaen 2016-2021 ym mis Medi 2016, a'i nod yw llywio gwelliannau i economi a gwasanaethau cyhoeddus Cymru er mwyn creu Cymru sy'n ffyniannus a diogel, yn iach ac egnïol, yn uchelgeisiol ac yn dysgu, ac sydd wedi'i huno a'i chysylltu. Mae hefyd yn nodi uchelgais Llywodraeth Cymru o ran cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a nifer y bobl sy'n ei siarad, yn ogystal â'i hymrwymiad i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac i barhau i annog mwy o bobl i ddefnyddio a siarad Cymraeg yn eu bywydau bob dydd.

- Prif fantais y cynnig hwn yw ei fod yn ymateb i'r heriau a osodwyd gan strategaeth iaith Gymraeg 2017 Llywodraeth Cymru, *Cymraeg 2050*, a'i phrif darged i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae ehangu addysg cyfrwng Cymraeg yn hollbwysig er mwyn rhoi'r strategaeth ar waith yn llwyddiannus. Bydd angen 438,000 o siaradwyr Cymraeg ychwanegol er mwyn cyflawni'r targed o 1 filiwn erbyn 2050. Er mwyn cyflawni hyn, bydd yn rhaid i'r sector addysg gael ei drawsnewid mewn ffyrdd penodol, ac mae'r cynnig hwn yn ceisio mynd i'r afael â'r heriau a'r newidiadau hynny, ac ymateb iddynt.

- Rhaid i ni gynyddu nifer y disgyblion ysgol sy'n cael y cyfle i feithrin sgiliau Cymraeg yn yr ysgol a'r cyfle i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd, a hynny'n sylweddol. Dyma'r sbardun ar gyfer y cynnig hwn, sy'n amlinellu dymuniad Llywodraeth Cymru i atgyfnerthu'r fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi'r ffordd y caiff y Gymraeg a darpariaeth Cymraeg eu cynllunio yn ein system addysg statudol yng Nghymru.

- Prif effaith y cynnig hwn fydd cynnydd cyffredinol yn nifer y disgyblion ysgol sy'n meithrin sgiliau Cymraeg ac, felly, bydd yn helpu i gyflawni nod Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

- Bydd y cynnig hwn yn cynyddu nifer y disgyblion ysgol sy'n cael y cyfle i feithrin sgiliau Cymraeg yn yr ysgol a'r cyfle i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd, gan gynnwys ei defnyddio fel sgil yn y gweithle pan fyddant wedi gadael y system addysg. Mae hyn yn gyson â'r nod o sicrhau Cymru ffyniannus fel rhan o Fil Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), yn ogystal â'n hamcanion llesiant o gefnogi pobl ifanc i wireddu eu potensial a'u galluogi i feithrin y sgiliau cywir ar gyfer byd sy'n newid.

- Bydd yn sicrhau bod pawb yn cael mynediad cyfartal i ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ni waeth beth fo'u cefndir, yn unol â'n nod llesiant o sicrhau Cymru fwy cyfartal.

- Bydd y cynnig hefyd yn sicrhau bod mwy o bobl yn cael y cyfle i fwynhau'r iaith a'r cyfleoedd diwylliannol amrywiol y mae'r iaith yn eu cynnig yng Nghymru, a fydd hefyd yn cyfrannu at un o nodau Bil Cenedlaethau'r Dyfodol o weld pobl yng Nghymru yn cymryd rhan yn ein diwylliant a rennir lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Mae hyn hefyd yn gyson â'n nod llesiant o feithrin iaith, diwylliant a chymunedau gwydn.

- Nod y cynnig hwn yw adeiladu ar y Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg cyfredol, a bydd yn galluogi awdurdodau lleol i osod y cyfeiriad strategol ar gyfer cynllunio ac ehangu addysg cyfrwng Cymraeg drwy system cynllunio iaith hirdymor. Mae hyn yn gyson â'r disgwyliad ar gyrff cyhoeddus fel rhan o Fil Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i edrych ar y sefyllfa yn yr hirdymor, yn ogystal â'r sefyllfa bresennol.

7.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?

Fel rhan o'r cynnig hwn, bydd yn ofyniad statudol i bob awdurdod lleol ddatblygu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd ar gyfer 2021-31. Fel rhan o'r dyletswyddau statudol hyn, bydd hefyd yn ofynnol i bob awdurdod lleol gyflwyno adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru ar brif bwyntiau'r broses o roi ei gynllun ar waith, a fydd yn ein galluogi i fonitro cynnydd mewn perthynas â'r cynnig hwn ar lefel awdurdod lleol. Gall Gweinidogion Cymru hefyd gynnal adolygiad o'r modd y mae awdurdod lleol yn rhoi ei gynllun ar waith os daw'n amlwg nad yw'n gwneud cynnydd digonol o ran cyflawni targedau'r cynllun hwnnw.

Felly, bydd disgwyl i bob awdurdod lleol ddatblygu ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar gyfer 2021-31 ar sail targedau heriol ond cyflawnadwy.

Bydd y targedau lleol yng nghylch 2021-31 yn seiliedig ar y targed hirdymor cyffredinol i sicrhau miliwn o siaradwyr. Mae Cymraeg 2050 yn amlinellu'r ymrwymiad i gynyddu cyfran y disgyblion ym mhob blwyddyn ysgol sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg o 22% i 30% erbyn 2031, a bydd y cynnydd cenedlaethol hwn o 8% yn sail i dargedau pob awdurdod lleol yn ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Felly, gellir olrhain cynnydd cenedlaethol cyffredinol yn unol â'r targedau a osodir gan bob awdurdod

ASESIADAU EFFAITH LLAWN

A. ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

1. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar blant a phobl ifanc.

Mae Adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ("Deddf 2013) yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i baratoi Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

Mae dyletswydd ar bob awdurdod lleol i gynnwys cynigion yn ei gynllun o ran y ffordd y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau addysg er mwyn gwneud y canlynol:

- gwella'r broses o gynllunio'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn ei ardal
- gwella safonau addysg cyfrwng Cymraeg a safonau addysgu Cymraeg yn ei ardal
- gosod targedau ar gyfer gwella'r broses o gynllunio'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn ei ardal ac ar gyfer gwella safonau'r addysg honno a safonau addysgu Cymraeg yn ei ardal
- adrodd ar y cynnydd a wnaed i gyflawni'r targedau a osodwyd.

Cyhoeddwyd strategaeth Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr, ym mis Awst 2017. Ynddi, sefydlwyd gweledigaeth ar gyfer Cymru lle mae'r iaith yn ffynnu, ynghyd â ffocws clir ar gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg. Er mwyn cyflawni targedau'r strategaeth, rhaid i ni greu system addysg statudol sy'n cynyddu nifer y siaradwyr hyderus. Er mwyn cyflawni'r nod hwn, rhaid sicrhau cynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion ysgol sy'n cael y cyfle i feithrin sgiliau Cymraeg yn yr ysgol a'r cyfle i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd.

Yn 2017, cydnabu adolygiad cyflym o'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr angen am newid, nid yn unig o ran uchelgeisiau cynlluniau unigol, ond hefyd o ran y fframwaith deddfwriaethol a nodwyd gan y Llywodraeth. Tynnodd yr adolygiad sylw at yr angen i newid y rheoliadau a'r canllawiau sy'n deillio o'r ddeddfwriaeth er mwyn atgyfnerthu cyfrifoldebau a disgwyliadau awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill. Mae'r cynnig hwn yn ceisio atgyfnerthu'r seilwaith cynllunio cyfredol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn unol â'r weledigaeth a nodir yn strategaeth y Gymraeg.

Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar fywydau plant, yn gadarnhaol ac yn negyddol?

Cadarnhaol

- Bydd mwy o blant a phobl ifanc yn gadael y system addysg â sgiliau Cymraeg. Bydd hyn yn golygu y bydd ganddynt y sgiliau i'w cymhwyso at amrywiaeth eang o swyddi lle mae'r Gymraeg yn cael ei chydnabod yn sgil hanfodol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r agenda trechu tlodi drwy rymuso plant a phobl ifanc sy'n meddu ar sgil ychwanegol pan fyddant yn gadael y system addysg.
- Bydd y gwaith yn y cynnig hwn yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael mwy o gyfleoedd i ddysgu'r iaith, ac yn golygu bod mwy o blant a phobl ifanc yn cael y cyfle i fanteisio ar fuddiannau gwybyddol dwyieithrwydd.
- O ran y rôl hanfodol y mae'r system addysg yn ei chwarae wrth gyrraedd miliwn o siaradwyr, mae'r cynnig hwn hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cynyddu'r cyfraddau trosglwyddo rhwng cyfnodau allweddol o fewn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Bydd hyn yn rhoi'r siawns gorau posibl i blant a phobl ifanc gynnal eu sgiliau Cymraeg a manteision dwyieithrwydd wrth iddynt ddod yn oedolion.
- Bydd rhoi'r cynnig hwn ar waith drwy'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn sicrhau bod mwy o blant a phobl ifanc yn cael mynediad cyfartal i addysg cyfrwng Cymraeg ni waeth beth fo categori ieithyddol yr ysgol y maent yn ei mynychu.
- Un o'r deilliannau yn y Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg fydd gwella'r ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg, felly bydd yn rhaid i awdurdodau lleol osod targedau er mwyn cyflawni hyn. Bydd hyn yn arwain at well gwasanaethau a chymorth i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Nodir hefyd ddeilliant sy'n ceisio gwella sgiliau Cymraeg drwy gyfleoedd anffurfiol i ddefnyddio'r iaith. Bydd hyn yn golygu bod plant a phobl ifanc yn gallu manteisio ar fwy o gyfleoedd diwylliannol a hamdden cyfrwng Cymraeg.
- Rydym wedi defnyddio gwybodaeth o'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg cyfredol a'r adroddiadau blynyddol cysylltiedig er mwyn llunio'r asesiad hwn. Fel rhan o'r broses ymgynghori, a fydd yn dechrau ym mis Mai, byddwn yn cynnal ymgynghoriad â phobl ifanc er mwyn sicrhau bod eu safbwyntiau'n cael eu cynrychioli'n llawn.
- Roedd y bwrdd cynghori ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, a arweiniodd/luniodd y diwygiadau/datblygiadau o ran y rheoliadau hyn, yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector Anghenion Dysgu Ychwanegol. Roedd Pennaeth Ysgol Pendalar yng Ngwynedd yn aelod o'r grŵp, a bu ei phrofiad helaeth yn y maes hwn yn amhrisiadwy wrth ddatblygu'r amcan ar gyfer darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y cynnig.

Negyddol

- Rydym wedi nodi effeithiau negyddol bach ar grwpiau gwahanol o blant. Mae'n bosibl y bydd achosion mewn rhai ardaloedd lle bydd plant ag anghenion dysgu ychwanegol difrifol yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar gymorth arbenigol drwy gyfrwng y Gymraeg. Fel rhan o'r cynnig hwn, bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol gymryd camau i ddarparu'r cymorth hwn lle y bo'n bosibl.
- Fel rhan o'r broses ymgynghori, byddwn yn cynnal grŵp ffocws gyda phlant a phobl ifanc er mwyn casglu eu safbwyntiau ar y cynnig hwn. Byddwn yn sicrhau bod eu safbwyntiau'n cael eu cynnwys mewn unrhyw ddiwygiadau a wneir yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

2. Eglurwch sut y mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar hawliau plant.

Mae'r adran hon yn gofyn am asesiad, sy'n seiliedig ar farn wybodus, o effaith debygol y cynnig ar hawliau plant o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'n hollbwysig eich bod yn osgoi'r dybiaeth bod y deilliannau bwriadedig, fel y'u nodir uchod, yr un peth â'r effaith a ragwelir ar hawliau plant.

Bydd angen i chi ystyried yn ofalus sut y mae'r deilliannau bwriadedig yn cysylltu â hawliau plant a pha effaith y byddant yn ei chael. Mae'n bosibl y rhagwelir effeithiau sy'n wahanol i ddeilliannau bwriadedig y cynnig.

Nododd Comisiynydd Plant Cymru fod y Gymraeg a darpariaeth gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn fater o hawliau, ac yn berthnasol i nifer o erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Hefyd, nododd y Comisiynydd fod cyswllt clir rhwng iaith a hunaniaeth, ac nad yw'n bosibl gwahanu unrhyw un o erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn oddi wrth ystyriaethau ieithyddol.

Nodir isod yr erthyglau mwyaf perthnasol ynghyd ag amlinelliad o'r modd y bydd y Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a'r cynlluniau dilynol yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r erthyglau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc yng Nghymru.

Erthyglau 28, 29, 30, a 31 yw'r rhai mwyaf perthnasol i'r rheoliadau hyn.

Erthygl 28 – Mae Partïon Gwladwriaethau yn cydnabod hawl y plentyn i gael addysg, a chyda golwg ar sicrhau'r hawl hon yn raddol ac ar sail cyfle cyfartal.

Mae'r cynnig hwn yn sicrhau bod dyletswydd ar bob awdurdod lleol i wella'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a chefnogi'r rhai hynny sy'n dymuno manteisio arni.

Erthygl 29 – Mae Partïon Gwladwriaethau yn cytuno bod yn rhaid cyfeirio addysg y plentyn at fagu parch at rieni'r plentyn, ei hunaniaeth ddiwylliannol, ei iaith a'i werthoedd ei hun, a gwerthoedd cenedlaethol y wlad lle mae'r plentyn yn byw.

Mae'r cynnig hwn yn cefnogi Strategaeth Cymraeg 2050 sy'n anelu at sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r cynnig hwn, drwy'r system addysg statudol, yn hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru, a bydd yn annog plant i fanteisio arnynt drwy'r darpariaethau a gyflawnir drwy'r cynnig hwn.

Erthygl 30 – Yn y Gwladwriaethau hynny lle mae lleiafrifoedd ethnig, crefyddol neu ieithyddol neu bersonau o darddiad brodorol yn bodoli, rhaid peidio â gwrthod hawl i blentyn sy'n perthyn i'r lleiafrif hwnnw, neu sy'n frodor, fwynhau ei ddiwylliant ei hun, proffesu ac arfer ei grefydd ei hun, neu ddefnyddio ei iaith ei hun mewn cymuned gydag aelodau eraill o'i grŵp. Mae'r cynnig hwn yn hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc i fanteisio ar y Gymraeg a diwylliant Cymru drwy hyrwyddo cyfleoedd anffurfiol i ddefnyddio'r iaith, a bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud hyn fel rhan o'r cynnig hwn.

Erthygl 31 – Mae Partïon Gwladwriaethau yn cydnabod hawl y plentyn i orffwys a chael hamdden, i chwarae ac ymroi i weithgareddau adloniadol sy'n briodol i oedran y plentyn ac i gymryd rhan ddirwystr mewn bywyd diwylliannol a'r celfyddydau. Fel rhan o'r cynnig hwn, bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol hyrwyddo gweithgareddau anffurfiol drwy gyfrwng y Gymraeg, a fydd yn cynnwys gweithgareddau hamdden, diwylliannol a chelfyddydol.

2. Rhaid i Bartïon Gwladwriaethau barchu a hybu hawl y plentyn i gymryd rhan lawn mewn bywyd diwylliannol a chelfyddydol a rhaid iddynt hyrwyddo'r broses o ddarparu cyfleoedd priodol a chyfartal ar gyfer gweithgareddau diwylliannol, celfyddydol ac adloniadol a gweithgareddau hamdden. Fel rhan o'r cynnig hwn, bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol hyrwyddo gweithgareddau anffurfiol drwy gyfrwng y Gymraeg, a fydd yn cynnwys gweithgareddau hamdden, diwylliannol a chelfyddydol.

Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol ar hawliau plant na'u gallu i gymryd rhan ac arfer eu hawliau. Mae addysg cyfrwng Cymraeg yn agored i bawb, ac mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo mynediad i bawb, yn ogystal â chynnig cymorth a chyfleoedd anffurfiol i'r rhai hynny sy'n dymuno manteisio arni.

B. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

1. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Nod y cynnig hwn yw cynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i blant. Drwy wneud hyn, bydd yn gweithio i gynnig mwy o gyfleoedd i bobl feithrin sgiliau Cymraeg drwy'r sector addysg. Ymhen amser, gall hyn gyfrannu at yr agenda trechu tlodi drwy roi sgiliau Cymraeg i blant na fyddent o bosibl wedi cael y cyfle i'w meithrin heb y strategaeth hon. O ganlyniad, mae'n bosibl y bydd y plant hynny'n gallu ymgeisio am swyddi lle mae'r Gymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol, gan eu galluogi i fanteisio ar ran o'r farchnad lafur na fyddai fel arall wedi bod yn agored iddynt.

Drwy gynyddu a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg, ochr yn ochr â gweithio i gynyddu lle'r Gymraeg yn ein cymunedau, gallai'r cynnig helpu i sicrhau cydlyniant cymunedol rhwng pobl o gefndiroedd ethnig, crefyddau a hiliau gwahanol.

Rydym wedi nodi effaith negyddol fach ar bobl mewn grwpiau gwarchodedig a'r rhai sy'n byw mewn cartrefi incwm isel. Bydd y cynnig hwn yn sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg ar gael i bawb ac yn hygyrch i bawb sy'n dymuno manteisio arni. Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnig cymorth i unrhyw un sy'n dymuno manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg.

Caiff effaith y cynnig hwn ei mesur drwy fonitro datblygiad Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol.

O ganlyniad i'r cynnig hwn, bydd yn ofyniad statudol i bob awdurdod lleol ddatblygu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd ar gyfer 2021-31. Fel rhan o'r dyletswyddau statudol hyn, bydd hefyd yn ofynnol i bob awdurdod lleol gyflwyno adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru ar brif bwyntiau'r broses o roi ei gynllun ar waith, yn ogystal ag adolygiad hanner ffordd o'r cynllun hwnnw. Gall Gweinidogion Cymru hefyd gynnal adolygiad o'r modd y mae awdurdod lleol yn rhoi ei gynllun ar waith os daw'n amlwg nad yw'n gwneud cynnydd digonol o ran cyflawni targedau'r cynllun hwnnw. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i sicrhau bod 30% o blant 7 oed yn cael addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2031, a bydd data blynyddol yn cael eu casglu er mwyn monitro cynnydd dros oes y cynlluniau.

Caiff llwyddiant ei fesur gan y targedau a osodir yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg unigol pob awdurdod lleol, ynghyd â tharged Strategaeth Cymraeg 2050 i sicrhau bod 30% o ddisgyblion yn cael addysg cyfrwng Cymraeg.

Cofnod o Effeithiau yn ôl nodwedd warchodedig:

Nodwedd neu grŵp gwarchodedig	**Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?**	**Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)**	**Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau?**
Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran)	Ni nodwyd unrhyw effeithiau	Mae'r cynnig hwn yn ymwneud â'r cyfnod addysg statudol yn unig.	
Anabledd (meddyliwch am wahanol fathau o anabledd)	Cadarnhaol	Bydd y cynnig hwn yn rhoi'r cyfle i blant a phobl ifanc ddysgu a meithrin sgiliau Cymraeg ac yn sicrhau eu bod yn cael cymorth i wneud hynny drwy gydol eu taith addysg. Un o'r deilliannau yn y Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yw gwella'r ddarpariaeth a'r cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol, gan alluogi mwy o'r rhai hynny y mae angen y cymorth penodol hwnnw arnynt i fanteisio arno drwy gyfrwng y Gymraeg.	

Ailbennu Rhywedd (y broses o newid rhyw a phobl Drawsryweddol)	Ni nodwyd unrhyw effeithiau		
Beichiogrwydd a mamolaeth	Ni nodwyd unrhyw effeithiau	Mae'r cynnig hwn yn ymwneud â'r cyfnod addysg statudol yn unig.	
Hil (gan gynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid)	Cadarnhaol	Bydd y cynnig hwn yn rhoi'r cyfle i blant a phobl ifanc ddysgu a meithrin sgiliau Cymraeg ac yn sicrhau eu bod yn cael cymorth i wneud hynny drwy gydol eu taith addysg. Fel rhan o'r cynnig hwn, bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod darpariaeth drochi ar gael i newydd-ddyfodiaid a hwyrddyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd y ddarpariaeth hon yn golygu bod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu cael addysg cyfrwng Cymraeg, ac y bydd y cymorth angenrheidiol ar gael iddo os bydd	

		yn dewis gwneud hynny. Bydd y ffocws cynyddol ar greu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn rhoi mwy o ddewisiadau i bobl o bob hil o ran addysg eu plant, yn ogystal â'r opsiwn i integreiddio i mewn i gymunedau sy'n siarad Cymraeg.	
Crefydd, cred a diffyg cred	Ni nodwyd unrhyw effeithiau		
Rhyw/Rhywedd	Ni nodwyd unrhyw effeithiau		
Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol)	Ni nodwyd unrhyw effeithiau		
Priodas a phartneriaeth Sifil	Ni nodwyd unrhyw effeithiau		
Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed	Cadarnhaol	Bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc o bob oed. Bydd y cynnig hwn yn rhoi'r cyfle i blant a phobl ifanc ddysgu a meithrin sgiliau	

		Cymraeg ac yn sicrhau eu bod yn cael cynnig cymorth i wneud hynny drwy gydol eu taith addysg. Bydd hyn hefyd yn golygu bod plant a phobl ifanc yn meddu ar sgiliau Cymraeg ar gyfer y gweithle yn y dyfodol.	
Myfyrwyr o gartrefi incwm isel	Cadarnhaol	Bydd y cynnig hwn yn rhoi'r cyfle i blant a phobl ifanc ddysgu a meithrin sgiliau Cymraeg ac yn sicrhau eu bod yn cael cynnig cymorth i wneud hynny drwy gydol eu taith addysg.	

Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig

A fydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl yn eich barn chi? *(Darllenwch bwynt 1.4 yng Nghanllawiau'r Asesiad Effaith Integredig i gael rhagor o wybodaeth am Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig).*

Hawliau Dynol	**Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?**	**Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)**	**Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau negyddol?**

Erthygl 26	Effaith gadarnhaol	Mae'r cynnig hwn yn ymwneud â phlant a phobl ifanc yn y system addysg statudol. Fodd bynnag, mae'n gyson â'r datganiad yn Erthygl 26 – bod gan bawb yr hawl i gael addysg a bod gan rieni yr hawl i ddewis y math o addysg a roddir i'w plentyn. O ran y cynnig hwn, mae'r uchod yn berthnasol i addysg cyfrwng Cymraeg.	

C. ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg;

02/04/2019

1. A yw'r cynnig yn cysylltu'n glir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – *Cymraeg 2050, Miliwn o Siaradwyr* a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2017-2021?

Mae'r system addysg yn allweddol i gyflawni'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg a nodir yn Strategaeth Cymraeg 2050, ac mae'n hollbwysig ein bod yn creu system addysg statudol sy'n cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg hyderus. Mae'r cynnig hwn, sy'n ceisio atgyfnerthu'r broses statudol gyfredol a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg, yn rhan hollbwysig o'r broses hon, a bydd yn parhau felly drwy gydol y cyfnod hyd at 2050.

Mae'r rheoliadau sy'n rhan o'r cynnig hwn yn nodi ein dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae'r rheoliadau diwygiedig hyn yn ymateb i'r ymrwymiadau a wneir yn Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr, i adolygu'r broses statudol gyfredol a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i gynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg.

Cyn hynny, roedd y broses o gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg yn seiliedig ar Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg 2010. Roedd y strategaeth hon yn nodi'r cyfeiriad strategol cenedlaethol ar gyfer y broses o gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg rhwng 2010 a 2015.

Yn 2016, daeth gwerthusiad o'r strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg i'r casgliad bod y ffaith bod y cynlluniau'n rhai statudol wedi gwella'r broses o gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg i'r graddau eu bod yn galluogi awdurdodau lleol i gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg o fewn fframwaith strwythuredig. Serch hynny, daeth yr ymchwiliad a gynhaliwyd gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad yn 2015 a'r adolygiad thematig o Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a gynhaliwyd gan Estyn yn 2016 i gasgliadau tebyg, sef nad oedd y cynlluniau'n ddigon cyson â gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg.

Am y tro cyntaf, mae Cymraeg 2050 yn nodi gweledigaeth glir ar gyfer Cymru lle mae'r iaith yn ffynnu. Un o nodau allweddol y strategaeth yw creu system addysg statudol sy'n cynyddu nifer y siaradwyr hyderus. Er mwyn cyflawni'r nod hwn, rhaid sicrhau cynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion ysgol sy'n cael y cyfle i feithrin sgiliau Cymraeg yn yr ysgol a'r cyfle i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd.

Mae Cymraeg 2050 yn gofyn am gymorth gan ein hawdurdodau lleol i ymateb i'n huchelgais o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg, a hynny drwy ddangos arweinyddiaeth glir ac ymrwymiad i rannu'r un weledigaeth hirdymor. Mae angen i'r ddeddfwriaeth sy'n nodi'r gofynion ar gyfer awdurdodau lleol mewn perthynas â chynllunio addysg cyfrwng Cymraeg adlewyrchu dyheadau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg dros y 30 mlynedd nesaf. Rhaid i ni gymryd camau sylweddol, systematig a rhagweithiol tuag at gyflawni'r nod o gynyddu nifer y disgyblion sy'n dysgu Cymraeg.

Cymraeg 2050 yw'r prif bolisi sy'n llywio'r newidiadau i'r broses statudol o gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg. Yn ôl strategaeth Cymraeg 2050, addysg ymdrochi cyfrwng Cymraeg yw ein prif ddull o sicrhau bod plant yn gallu meithrin eu sgiliau Cymraeg, ac o greu siaradwyr newydd. Mae data ysgolion yn dweud wrthym faint o blant sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, Maent yn ddangosydd allweddol o ran y twf sy'n ofynnol ac yn dangos pwysigrwydd sicrhau ymrwymiad y system addysg i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg. Maent hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd y sector blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad cynnar i addysg ymdrochi, ac fel ffordd o gynyddu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae gan y sector cyfrwng Saesneg gyfraniad pwysig i'w wneud at ein nod o ddatblygu siaradwyr Cymraeg.

Cydnabu adolygiad cyflym o'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, a gomisiynwyd yn 2017, yr angen am newid, nid yn unig o ran uchelgeisiau cynlluniau awdurdodau lleol unigol, ond hefyd o ran y fframwaith deddfwriaethol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru. Tynnodd yr adolygiad sylw at yr angen i newid y rheoliadau a'r canllawiau sy'n deillio o'r ddeddfwriaeth er mwyn atgyfnerthu cyfrifoldebau a disgwyliadau awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill.

Daeth y Bwrdd i'r casgliad nad yw'r strwythur cyfredol sy'n cefnogi'r broses strategol o gynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg drwy Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cefnogi'r uchelgais hirdymor o ran y Gymraeg mwyach. Felly, mae *Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 ("Rheoliadau 2019")* yn ceisio gwella'r fframwaith ar gyfer cynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol a sicrhau ei fod yn gyson a'r disgwyliadau am dwf, nawr ac yn y dyfodol.

2. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac eglurwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y Gymraeg. Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg o bob oed (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)? Dylech nodi eich ymateb i'r canlynol wrth ateb y cwestiwn hwn, yn ogystal â chynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol arall:

Mae'r cynnig hwn yn ymwneud â'r system addysg statudol, felly ar blant a phobl ifanc sy'n rhan o'r system gyfredol y mae'n effeithio'n bennaf. Fodd bynnag, bydd yn cael effaith gydol oes ar y rhai hynny sy'n mynd drwy'r system addysg wrth iddo geisio cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg hyderus. Bydd hyn yn golygu bod mwy o bobl yn meddu ar sgiliau iaith y gellir eu trosglwyddo i'r gweithle yn y dyfodol a bod mwy o bobl yn cael y cyfle i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd.

Mae Cymraeg 2050 yn gofyn am gymorth gan ein hawdurdodau lleol i ymateb i'n huchelgais o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg, a hynny drwy ddangos arweinyddiaeth glir ac ymrwymiad i rannu'r un weledigaeth hirdymor. Mae angen i'r ddeddfwriaeth sy'n nodi'r gofynion ar gyfer awdurdodau lleol mewn perthynas â chynllunio addysg cyfrwng Cymraeg adlewyrchu dyheadau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg dros y 30 mlynedd nesaf. Rhaid i ni gymryd camau sylweddol, systematig a rhagweithiol tuag at gyflawni'r nod o gynyddu nifer y disgyblion sy'n dysgu Cymraeg.

Bydd y deilliannau ar gyfer y Gymraeg yn gwella o fewn y system addysg statudol fel rhan o'r dyletswyddau a nodir yn y cynnig hwn. Yn fras, bydd yn ofynnol i bob awdurdod lleol wneud y canlynol:

- gwella'r broses o gynllunio'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn ei ardal
- gwella safonau addysg cyfrwng Cymraeg a safonau addysgu Cymraeg yn ei ardal
- gosod targedau ar gyfer gwella'r broses o gynllunio'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn ei ardal ac ar gyfer gwella safonau'r addysg honno a safonau addysgu Cymraeg yn ei ardal
- adrodd ar y cynnydd a wnaed i gyflawni'r targedau a osodwyd.

At hynny, caiff y deilliannau ar gyfer y Gymraeg eu hatgyfnerthu drwy'r cynnig hwn gan y bydd dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i weithio tuag at gyflawni'r saith deilliant canlynol:

- Mwy o blant meithrin/tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg
- Mwy o blant dosbarth derbyn/pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

- Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall
- Mwy o fyfyrwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg
- Mwy o gyfleoedd i fyfyrwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol y tu allan i'r ystafell ddosbarth
- Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol)
- Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r patrymau o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg a darpariaeth ddwyieithog yng Nghymru yn amrywio o ardal i ardal, ac o ysgol gynradd i ysgol uwchradd. Mae nifer o'r gwahaniaethau hyn yn adlewyrchu'r patrymau o ran defnydd iaith yn y gymuned ehangach, ac mae eraill yn adlewyrchu anghysondebau o ran y ffordd y caiff polisïau eu rhoi ar waith. Er bod angen i'r system addysg fod yn ddigon hyblyg i adlewyrchu nodweddion ieithyddol ardaloedd gwahanol o Gymru, mae'n bwysig ein bod yn sicrhau bod addysg yn cael ei chynllunio a'i darparu ar sail dealltwriaeth glir o ddeilliannau ieithyddol y dysgwyr. Fel rhan o'r cynnig hwn, bydd awdurdodau lleol yn gweithio tuag at gyflawni eu targed unigol eu hunain er mwyn cyfrannu at darged cyffredinol Llywodraeth Cymru i sicrhau bod 30% o ddisgyblion yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2031. Datblygwyd y fethodoleg ar gyfer y targedau hyn ar sail xxx ac mae'n adlewyrchu natur ieithyddol awdurdodau lleol penodol. Bydd hyn yn sicrhau bod yn rhaid i awdurdodau lleol, drwy'r system addysg, gynnal neu wella cynaliadwyedd eu cymunedau sy'n siarad Cymraeg.

Bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol ar addysg cyfrwng Cymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oed. Ymhen amser, bydd y cynnig hwn yn arwain at gynnydd yn nifer y dysgwyr yn y sector addysg statudol sy'n meithrin sgiliau Cymraeg, a bydd yn sicrhau bod pob dysgwr yn meithrin sgiliau Cymraeg o safon a fydd yn ei alluogi i ddefnyddio'r iaith yn ei fywyd bob dydd. Bydd hefyd yn sicrhau bod mwy o blant a phobl ifanc yn meithrin sgiliau y gallant eu trosglwyddo i'r gweithle ar ôl iddynt adael y system addysg statudol.

Yn ogystal â chael effaith gadarnhaol ar addysg, bydd y cynnig hwn hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar rai o'r gwasanaethau cyfrwng Cymraeg a ddarperir gan awdurdodau lleol, a hynny oherwydd natur y deilliannau y bydd disgwyl iddynt weithio tuag at eu cyflawni fel rhan o'u Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Bydd gorgyffwrdd rhwng gwasanaethau fel cludiant i'r ysgol, gwasanaethau cymdeithasol yng nghyd-destun darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol, yn ogystal â gwasanaethau ieuenctid cyfrwng Cymraeg.

O fewn y canllawiau statudol ar gyfer y Cynlluniau Statudol Cymraeg mewn Addysg, rydym wedi atgyfnerthu'r disgwyliad ar awdurdodau lleol i sicrhau bod pob rhiant yn fwy

ymwybodol o'r opsiwn i gael addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, yn ogystal ag i ba raddau y caiff Cymraeg ei haddysgu mewn ysgolion Saesneg a natur y gwersi hynny. Rydym hefyd wedi atgyfnerthu'r disgwyliad ar awdurdodau lleol i rannu gwybodaeth â rhieni mewn modd rhagweithiol, gan gynnwys yr hyn y mae pob opsiwn yn ei olygu o ran addysg eu plentyn. Hefyd, bydd disgwyl i awdurdodau lleol ystyried sut y byddant yn rhannu gwybodaeth am y ffaith bod addysg cyfrwng Cymraeg yn opsiwn i bob plentyn, ni waeth beth fo'i gefndir ieithyddol, ynghyd â gwybodaeth am fanteision dwyieithrwydd ac amlieithrwydd. Bydd disgwyl iddynt hefyd hyrwyddo mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yng nghyd-destun cludiant o'r cartref i'r ysgol yn unol â'r dyletswyddau a osodwyd gan adran 10 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.

Mae'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a nodir yn y cynnig hwn yn elfen allweddol o'r gwaith o wireddu uchelgais ein Strategaeth Cymraeg 2050, a bydd y cynlluniau 10 mlynedd arfaethedig newydd yn destun gwaith craffu drwy adroddiadau blynyddol ar gynnydd ac adolygiad hanner ffordd.

Bydd disgwyl i bob awdurdod lleol ddatblygu ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar gyfer 2021-31 ar sail targedau heriol ond cyflawnadwy. Bydd targedau awdurdodau lleol yng nghylch 2021-31 yn seiliedig ar y targed hirdymor cyffredinol o gyrraedd miliwn o siaradwyr. Mae Cymraeg 2050 yn amlinellu'r ymrwymiad i gynyddu cyfran y disgyblion ym mhob blwyddyn ysgol sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg o 22% i 30% erbyn 2031, a bydd y cynnydd cenedlaethol hwn o 8% yn sail i dargedau pob awdurdod lleol yn ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Bydd casglu data blynyddol ar niferoedd y plant sy'n dechrau yn yr ysgol, data CYBLD, yn ogystal â'r adroddiadau blynyddol ar gynnydd, yn ein galluogi i olrhain cynnydd a llwyddiant y cynnig hwn ar sail tystiolaeth a data.

D. ASESIAD O'R EFFAITH AR FIOAMRYWIAETH

Ymwreiddio bioamrywiaeth

1. Sut y bydd eich cynnig yn integreiddio bioamrywiaeth i'r broses o wneud penderfyniadau?

Ni fydd y cynnig hwn yn integreiddio bioamrywiaeth yn uniongyrchol. Fodd bynnag, mewn ffordd anuniongyrchol, bydd yn gwella'r modd y mae awdurdodau lleol, drwy'r system addysg statudol, yn adlewyrchu ein cymunedau ac yn sicrhau bod y system yn cynrychioli blaenoriaethau a phrofiadau amrywiol pob cymuned.

2. A yw eich cynnig wedi sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei hystyried fel rhan o benderfyniadau busnes?

Mater i awdurdodau lleol unigol fydd ystyried bioamrywiaeth wrth wneud unrhyw benderfyniadau busnes sy'n ymwneud â'r cynnig hwn ar lefel leol. O dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd 2016, bydd rhwymedigaeth ar awdurdodau lleol i geisio sicrhau a chynnal bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru.

3. Sut y mae eich cynnig yn gwella'r ddealltwriaeth ac yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth gan annog eraill i weithredu?

Mater i'r awdurdodau lleol fydd hyn, fel rhan o'r cynnig hwn a'u dyletswydd o dan Adran 6 o Ddeddf 2016 i gynrychioli buddiannau, blaenoriaethau a phrofiadau amrywiol eu cymunedau yn well.

Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n camau monitro

4. A ydych chi wedi defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael o fioamrywiaeth i lywio eich cynnig a'r asesiad hwn?

Rhoddwyd ystyriaeth i'r rhestr o rywogaethau a chynefinoedd pwysig iawn o dan Adran 7 o Ddeddf 2016 a'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, ac nid oes unrhyw faterion uniongyrchol yn codi. Rhoddwyd ystyriaeth i bob un o'r chwe datganiad, ac nid oes unrhyw faterion yn codi mewn perthynas â'r cynnig hwn.

5. A ydych wedi defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf am yr effeithiau allweddol ar fioamrywiaeth i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth?

Nid oes unrhyw ffactorau sy'n ysgogi newid na ffactorau eraill a fyddai'n cael effaith negyddol ar fioamrywiaeth yn codi mewn perthynas â'r cynnig hwn.

6. A all eich cynnig gyfrannu at ein corff o wybodaeth am fioamrywiaeth?

Cyfrifoldeb awdurdodau lleol fydd mynd ar drywydd hyn mewn modd priodol yng nghyd-destun eu dyletswydd o dan Adran 6 o Ddeddf 2016.

Llywodraethiant a chymorth i weithredu ar fioamrywiaeth

7. A all eich cynnig gefnogi gweithredu ar fioamrywiaeth mewn unrhyw ffordd?
Cyfrifoldeb awdurdodau lleol fydd mynd ar drywydd hyn mewn modd priodol yng nghyd-destun eu dyletswydd o dan Adran 6 o Ddeddf 2016.

8. A all eich cynnig helpu i ddatblygu capasiti ar gyfer gweithredu ar fioamrywiaeth?
Cyfrifoldeb awdurdodau lleol fydd mynd ar drywydd hyn mewn modd priodol yng nghyd-destun eu dyletswydd o dan Adran 6 o Ddeddf 2016.

9. A ydych chi wedi cofnodi penderfyniadau a chamau gweithredu i'w cymryd gynnal a gwella bioamrywiaeth?

Ni nodwyd unrhyw effeithiau ac, felly, nid ydynt wedi'u cofnodi.